**Adran Tai ac Adfywio**
**Department for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Gareth Clubb

gareth.clubb@foe.co.uk

Ein Cyf/Our ref: ATISN 7736
Eich Cyf/Your ref:
Dyddiad/Date: 24 Hydref 2013

Annwyl Mr Clubb

**DEDDF RHYDDID GWYBODAETH 2000:**
**RHEOLIADAU GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL 2004:**
**CAIS AM WYBODAETH– ATISN 7736**
**CAIS AM WYBODAETH MEWN PERTHYNAS Â GOHEBIAETH RHWNG LLYWODRAETH CYMRU A CHYFOETH NATURIOL CYMRU**

Diolch am eich cais am wybodaeth a dderbyniais ar 26 Medi. Fe wnaethoch ofyn am y wybodaeth ganlynol:

> "Pob gohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru ers 1 Ebrill sy'n cynnwys y geiriau: Cynllunio A gwrthwynebu NEU gwrthod NEU tynnu'n ôl NEU ailystyried neu ystyried"

Gallaf gadarnhau bod gan Lywodraeth Cymru wybodaeth sy'n rhan o'r disgrifiad a nodwch yn eich cais. Fodd bynnag, rwy'n amcangyfrif y byddai'n costio mwy na'r terfyn priodol a bennir gan Reoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn a Ffioedd Addas) 2004 i ystyried eich cais. £600 yw'r terfyn priodol a bennir ar gyfer llywodraeth ganolog. Mae hyn yn cynrychioli'r gost ar gyfartaledd o gymryd dros 24 awr o oriau gwaith i bennu a oes gennym y wybodaeth, dod o hyd i'r wybodaeth, y gwaith o adfer y wybodaeth ac o dynnu'r wybodaeth berthnasol sydd ei hangen o'r gweddill.

Nid oes cofnod canolog o nifer y darnau o ohebiaeth a anfonwyd gan Lywodraeth Cymru i Gyfoeth Naturiol Cymru. Nid oes chwaith gofnod canolog o nifer y darnau o ohebiaeth a anfonwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru i Lywodraeth Cymru. Mae pob is-adran yn comisiynu ei gwaith ei hun, felly er mwyn nodi sawl darn o ohebiaeth a anfonwyd neu a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Chyfoeth Naturiol Cymru ers 1 Ebrill 2013, byddai'n rhaid i ni gymryd y camau canlynol:

Cam 1 - Swyddog arweiniol i e-bostio pob Pennaeth Is-adran yn gofyn iddynt nodi unrhyw ohebiaeth a anfonwyd i neu a dderbyniwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru rhwng 1 Ebrill 2013 a 26 Medi 2013.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffacs • Fax 029 2082 5622
Ffôn • Tel 029 2082 3883
Nicholas.iles@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Cam 2 - Unigolyn penodedig o fewn yr Is-adran i chwilio drwy ffeiliau electronig a chopïau caled i ddod o hyd i unrhyw ohebiaeth sy'n berthnasol i'ch cais.
Cam 3 - Gwirio pob darn o ohebiaeth neu ddogfennaeth gysylltiedig i chwilio am y geiriau y cyfeirir atynt yn eich cais.
Cam 4 - Cofnodi unrhyw ohebiaeth a dogfennaeth a nodwyd ar ffurf rhestr.
Cam 5 - Ebostio'r rhestr at y swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am ymateb i'r cais.
Cam 6 - Y swyddog arweiniol i lunio rhestr derfynol o'r ohebiaeth a'r ddogfennaeth.

Mae'r Adran Dyfodol Cynaliadwy yn rhoi syniad o faint o amser y byddai'n ei gymryd iddynt gasglu'r wybodaeth hon gan un o'u His-adrannau. Nododd yr Is-adran Cynllunio y byddai'n cymryd un o'u staff tua phedwar diwrnod gwaith (28 awr) i ddod o hyd i'r wybodaeth berthnasol. Mae gan yr Adran Dyfodol Cynaliadwy 23 Is-adran. 28 x 23 = 644 awr. Mae 8 Adran yn Llywodraeth Cymru. Mae'n amhosibl gwybod hyd a lled ymwneud pob adran â Chyfoeth Naturiol Cymru a swm a sylwedd yr ohebiaeth a fu rhwng y ddau gorff, ond gan gymryd bod hyn yn arwydd o'r amser y byddai'n ei gymryd i bob adran chwilio, yna byddai'n cymryd 644 x 8 = 5,152 awr. Felly, byddai eich cais yn mynd y tu hwnt i'r terfyn priodol ac mae wedi'i wrthod ar y sail hynny.

Fel y nodais yn fy llythyr atoch ar 11 Hydref, pe bai ond modd i chi egluro neu gyfyngu ar eich cais er mwyn rhoi digon o wybodaeth i mi fedru chwilio a nodi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Er enghraifft, mae'n bosib bod gennych ddiddordeb mewn cais cynllunio penodol. Os felly, nodwch y cais dan sylw. Fel arall, efallai bod gennych ddiddordeb yn y ceisiadau hynny sydd wedi'u gwrthod gan Weinidogion Cymru a'ch bod am wybod y rhesymau wrth wraidd y penderfyniadau hynny.

Bydd unrhyw gais wedi'i ddiwygio a ddaw i law Llywodraeth Cymru oddi wrthych yn cael ei drin fel cais newydd.

Bydd unrhyw wybodaeth a gyhoeddir o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn cael ei rhestru yng nghofnod Datgeliadau Llywodraeth Cymru (yn www.gwybodaeth.cymru.wales.gov.uk

Os ydych chi o'r farn nad wyf wedi dilyn y cyfreithiau perthnasol, neu'ch bod yn anhapus gyda'm hymateb, gallwch ofyn am adolygiad mewnol drwy ysgrifennu at:

John Howells
Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Wrth fynd i'r afael ag unrhyw bryderon, byddwn yn dilyn yr egwyddorion a nodir yng Nghod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gwynion sydd ar gael ar-lein yn www.cymru.gov.uk neu drwy'r post.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Ond fel arfer dylech roi cyfle i ni gynnal adolygiad mewnol cyn ichi gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane

Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745
Ffacs: 01626 524 510
E-bost: casework@ico.gsi.gov.uk

Hefyd, os credwch fod camweinyddu wedi digwydd wrth ymdrin â'ch cais gallwch gwyno wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Gallwch gysylltu ag ef yn:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
Pen-y-bont ar Ogwr
CF35 5LJ

Yn gywir

Nick Iles
Y Gangen Penderfyniadau
Yr Is-adran Cynllunio